**Julie James AC/AM**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**
**Leader of the House and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/LG/0121/18

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

29 Mawrth 2018

Annwyl Elin,

**Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018**

Yn unol â'r canllawiau, rwyf yn eich hysbysu, yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y bydd y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri wrth gyflwyno'r Gorchymyn uchod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol er gwybodaeth ichi.

**Y Cefndir**

Sefydlwyd y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth (y Panel) ar 1 Ebrill 2016 o dan Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014. Mae cylch gwaith y Panel yn cynnwys adolygu cyflogau ac amodau cyflogaeth eraill a hefyd gefnogi gwaith i feithrin sgiliau a datblygu gyrfa yn y sector amaethyddol.

Ar hyn o bryd mae gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r cyfraddau a bennir gan Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017.

Penderfynodd y Panel gynyddu cyflogau ar gyfer gweithwyr amaethyddol ac ymgynghorodd am y cynigion yn ystod hydref 2017. Roedd amserlen wreiddiol y Panel yn cynnig bod y Gorchymyn newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill, sef y dyddiad y bydd y cynnydd i Gyflog Byw Cenedlaethol y DU a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn cael ei weithredu. Bydd cyfraddau cyflog newydd ar gyfer gweithwyr amaethyddol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn dod i rym ar y diwrnod hwnnw hefyd. Nod y Panel yw sicrhau bod y cynnydd yn isafswm cyflog

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gweithwyr amaethyddol yn cyd-fynd â'r newidiadau i'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Cyhoeddwyd codiadau uwch na'r disgwyl i gyfraddau'r Cyflog Byw Cenedlaethol/Isafswm Cyflog Cenedlaethol ddiwedd mis Tachwedd. Roedd hynny’n golygu bod angen ailedrych ar y cyfraddau lleiaf y bwriedid eu cynnwys yn Neddf Cyflogau Amaethyddol 2018. Er ein bod wedi gwneud pob ymdrech i weithredu ar fyrder ni fu unrhyw gyfaddawdu o safbwynt ystyriaeth.

Hyd nes y daw Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018 i rym, ni fydd gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn cael y codiad arfaethedig i'r cyfraddau lleiaf nac ychwaith y cynnydd arfaethedig i rai lwfansau.

Er mwyn sicrhau bod hyn yn amharu cyn lleied â phosibl ar bobl, ac er mwyn sicrhau hefyd fod gweithwyr yn cael eu talu yn unol â'r cyfraddau a gynigir gan y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth, cynigir bod yr Offeryn Statudol yn torri'r rheol 21 diwrnod.

Bydd torri'r rheol 21 diwrnod yn sicrhau cyn lleied o oedi â phosibl wrth gyflwyno'r cyfraddau cyflog newydd y cytunwyd arnynt a bydd hefyd yn sicrhau amodau cyflogaeth teg a thâl teg i weithwyr amaethyddol yng Nghymru. Bernir bod angen torri'r rheol 21 diwrnod a bod modd cyfiawnhau hynny yn yr achos hwn oherwydd y bydd yn lleihau'r oedi o ran cynyddu’r cyfraddau lleiaf ar gyfer cyflogau gweithwyr amaethyddol ac o ran cynyddu cyfraddau rhai lwfansau.

Byddai unrhyw oedi yn cosbi’r gweithwyr amaethyddol hynny a fyddai’n cael cyfraddau tâl is nag y byddent wedi disgwyl eu cael o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi, ac fe’i gosodwyd ef a’r Gorchymyn wedi’i gosod yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o’r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac at Chris Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yr eiddoch yn gywir,

**Julie James AC/AM**
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Eich cyf / Your ref :

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.